

AMODAU ARBENNIG

1. Pwy sy'n cael cystadlu?

Mae'r arddangosfa yn agored i'r rhai a aned yng Nghymru neu y ganwyd un o'i rieni yng Nghymru neu unrhyw berson a fu'n byw neu'n gweithio yng Nghymru am y tair blynedd cyn 31 Awst 2019 neu unrhyw berson sy'n siarad neu ysgrifennu Cymraeg.

2. Ffurflenni cais a thâl

£20.00 yw'r tâl cystadlu (£10.00 Ysgoloriaeth Artist Ifanc). Gwahoddir ymgeiswyr i anfon chwe delwedd Jpeg sy'n dangos un gwaith neu drawsdoriaid o weithiau. Cyfyngir pob cais i uchafswm o chwe delwedd. Gwahoddir ymgeiswyr sy'n gweithio drwy gyfrwng y ddelwedd symudol neu berfformans i gyflwyno hyd at chwe gwaith. Derbynnir dolenni i safweoedd fideo yn ogystal. Er mwyn cystadlu, rhaid i bob cais gynnwys peth gwaith a gwblhawyd ers Awst 2016. Ar ôl edrych ar y ceisiadau, efallai bydd y detholwyr yn gofyn am gael gweld rhagor o ddeunydd.

3. Datganiad

Rhaid cynnwys datganiad llawn ynglŷn â'r gwaith a gyflwynir yn ogystal – ni ystyrir unrhyw gais heb ddatganiad.

4. Y Rheol Iaith

Rhaid i unrhyw eiriau gwreiddiol a gynhwysir yn y gwaith celf (gan gynnwys sain a fideo) fod yn Gymraeg. Ond gellir cynnwys geiriau mewn ieithoedd eraill os ydynt yn rhan o wrthrych a ddarlunnir neu a ymgorfforir, neu yn ddyfyniadau, cyn belled nad ydynt yn rhan sylweddol o'r cyfanwaith.

5. Nifer y ceisiadau

Gellir cyflwyno unrhyw nifer o geisiadau ar gyfer yr Arddangosfa Agored.

6. Yswiriant

Cymerir pob gofal o unrhyw waith y rhoddir derbynneb amdano ac fe fydd yr Eisteddfod yn yswirio'r gweithiau o'r adeg y'u cesglir nes iddynt gael eu dychwelyd at eu perchenogion.

7. Gwybodaeth gyffredinol

a) Mae pob cystadleuaeth ac arddangosfa yn yr adran hon yn ddarostyngedig i'r Rheolau ac Amodau Cyffredinol ac i'r Amodau Arbennig hyn. Rhestrir y Rheolau Cyffredinol yn y Rhestr Testunau, sydd ar gael o Swyddfa'r Eisteddfod.

b) Rhaid i'r gwaith fod yn waith dilys yr ymgeisydd, ac ni ddylai fod wedi ei arddangos mewn unrhyw Eisteddfod Genedlaethol flaenorol.

8. Gwerthiant

Os yw gwaith ar werth, dylid nodi ei bris ar y ffurflen gais. Codir comisiwn o 40% (yn cynnwys T.A.W.) am unrhyw waith a werthir.

9. Hawlfraint

Bydd hawlfraint pob gwaith yn eiddo i'r ymgeisydd ond ceidw'r Trefnyddion yr hawl i atgynhyrchu unrhyw waith mewn unrhyw lawlyfr neu wefan perthynol i'r Eisteddfod ac i ganiatáu cyhoeddi lluniau o'r arddangosfa. Gall unrhyw waith gael ei ddefnyddio at bwrpas cyhoedduswydd y'r Eisteddfod.

10. Dyfarniad y detholwyr

Bydd dyfarniad y detholwyr yn derfynol.

11. Ysgoloriaeth Artist Ifanc

Mae'r arian a gynigir fel Ysgoloriaeth Artist Ifanc i'w ddefnyddio i hyrwyddo gyrfa. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus brofi i'r Eisteddfod y gwerir yr arian yn unol â'r amod hon. Mae'r ysgoloriaeth yn agored i'r sawl sydd dan 25 oed ar 31 Awst 2019.

12. Dyddiad cau

Ar gyfer derbyn y delweddau neu ddolenni i safweoedd, ffurflenni cais a thâl cystadlu: 14 Chwefror 2019.